

## CYNGOR SIR CEREDIGION

|   |  |
|---|--|
| <b>Adroddiad i:</b>                           | Cabinet  |
| <b>Dyddiad y cyfarfod:</b>                    | 14 Chwefror 2023   |
| <b>Teitl:</b>                                 | Gwasanaethau Arbenigol Porth Cynnal (Plant ac Oedolion)<br>Adroddiad Rheoli Perfformiad Y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 2 2022/23             |
| <b>Pwrpas yr adroddiad:</b>                   | Monitro cynnydd plant sy'n derbyn gofal trwy waith craffu Swyddogion Adolygu Annibynnol o'u cynlluniau a'u lleoliadau yn ystod ail chwarter 2022/2023. |
| <b>Er:</b>                                    | Gwybodaeth   |
| <b>Portffolio'r Cabinet ac Aelod Cabinet:</b> | Y Cyngorydd Alun Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gydol Oes a Llesiant   |

Yn yr adroddiad hwn cyflwynir gwybodaeth am y gwaith monitro a sicrhau ansawdd mewn perthynas â'r Plant sy'n Derbyngofal a adolygwyd yn ystod ail chwarter 2022/23.

Mae'r wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau fel Rhieni Corfforaethol.

Sail y wybodaeth yw'r ffurflenni monitro y mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn eu cwblhau yn dilyn pob adolygiad statudol o blant sy'n derbyn gofal, yn ogystal â'r wybodaeth arall y mae'r Gwasanaethau Plant yn ei chasglu am berfformiad.

Mae'r adroddiad yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal adeg eu hadolygiadau statudol, gan gynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru a Thargedau Perfformiad Lleol.

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod cyfarfod adolygu plant sy'n derbyn gofal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn llunio barn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd Cynllun Gofal y plentyn/person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a gall argymhell newidiadau i'r Cynllun Gofal.

Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn/person ifanc sy'n cael ei adolygu er mwyn nodi pobl eraill berthnasol i gael cyngor cyfreithiol/cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn bod angen gweithredu ar gyfer 2 berson ifanc yn ystod y cyfnod hwn.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/person ifanc, ac os oes, gallai gyfeirio'r achos i CAF/CASS. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw adolygiad.

## **CRYNODEB O'R PWYNTIAU ALLWEDDOL:**

- Ar ddiwedd Chwarter 2, roedd 112 o blant yn derbyn gofal o'i gymharu â 105 o blant ar ddiwedd Chwarter 1.
- Cafodd 63 o blant eu hadolygu yn ystod y chwarter hwn o'i gymharu ag 83 yn y chwarter blaenorol, a chafodd 88.9% o blant eu hadolygu o fewn y terfynau amser statudol.
- Roedd 6 o blant wedi gadael gofal yn y chwarter hwn o'i gymharu â 2 yn Chwarter 1. Roedd Gorchmynion Gofal 6 phlentyn wedi cael eu dirymu, dychwelodd 1 plentyn adref i'w deulu, cafodd 1 plentyn ei fabwysiadu, ac aeth 1 ymlaen i leoliad Pan Dwi'n Barod.
- Y ddarpariaeth leoli ar gyfer y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn oedd 13 mewn gofal maeth yr Awdurdod Lleol, 8 wedi'u lleoli gyda rhieni, 15 wedi'u lleoli gydag Asiantaeth Faethu Annibynnol, 4 mewn gofal preswyl, 15 gyda gofalwyr sy'n berthnasau, 1 mewn lleoliad mabwysiadu, a 4 mewn llety â chymorth.
- O'r plant a adolygwyd yn y chwarter hwn, cafodd 60 o bobl ifanc eu lleoli gyda gofalwyr oedd yn siarad yr un iaith â nhw. Nododd 3 adolygiad fod y person ifanc yn blentyn heb fod yng nghwmni oedolyn ac wedi cael ei roi mewn lleoliad oedd heb ddiwallu ei anghenion iaith gyntaf. Roedd cyfieithydd yn yr adolygiad er mwyn i'r person ifanc allu cyfrannu'n briodol.
- O'r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn, cafodd 93.7% o'r plant ymweliad statudol. Roedd hyn yn cymharu ag 86.7% yn Chwarter 1
- Roedd gan 27 o'r plant a adolygwyd Orchymyn Gofal Llawn, roedd gan 20 Orchymyn Gofal Dros Dro, roedd 1 ar Orchymyn Lleoli, ac roedd 15 o dan statws cyfreithiol Adran 76.
- Cofnodwyd bod 46% o'r cynlluniau gofal a chymorth wedi'u sefydlu yn yr adolygiad cyntaf. Roedd y ganran isel y chwarter hwn oherwydd problemau staffio yn y Tîm Gofal Wedi'i Gynllunio oedd wedi atal cynlluniau rhag cael eu cwblhau mewn pryd.
- Faint o amser mewn gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion a adolygwyd yn Chwarter 2 – 25 o dan 6 mis, 11 rhwng 6- 12 mis, 12 rhwng 1-2 flynedd, 15 dros 2 flynedd.
- Nifer a chanran y cynlluniau lleoli (gan gynnwys darpariaeth addysg ac iechyd) yr aseswyd eu bod yn bodloni anghenion plant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion oedd 92.1% yn y chwarter hwn.
- Canran y plant (â digon o grebwyll) oedd wedi cymryd rhan neu a gafodd eu hymgyngori ynghylch eu hadolygiad oedd 95.6%.
- Canran y plant a gafodd wybod am eu hawl i gael Gwasanaeth Eirioli oedd 89.6%.
- Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal oedran ysgol oedd â Chynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl iddynt ddechrau derbyn gofal neu ar ôl dechrau mewn ysgol newydd yn ystod y chwarter hwn oedd 100%.
- Nifer a chanran y rhieni y bu i'r Gweithiwr Cymdeithasol ymgynghori â hwy cyn yr adolygiad neu a fu'n bresennol yn y cyfarfod adolygu oedd 100%.
- Cynhaliwyd 33 o Gynlluniau Llwybr y chwarter hwn, cynhaliwyd 72.7% o Adolygiadau o Gynlluniau Llwybr o fewn y terfynau amser.
- Canran y bobl ifanc ag Ymgynghorydd Personol/Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig oedd 100% yn ystod y chwarter hwn.
- Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y cyfarfod adolygu yn ystod y chwarter hwn oedd 100%.

## **A gwblhawyd Aseiad Effaith Integredig?**

Naddo

### **Os naddo, esboniwch pam**

#### ***Crynodeb:***

Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu'n barhaus ac mae'n dangos y gwaith parhaus a wneir gyda phlant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion.

#### **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**Hirdymor:** Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol

**Integreiddio:** Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a'r diwylliant a cheisio dod â budd i bob un ohonynt

**Cydweithio:** Cydweithio â phartneriaid eraill i gyrraedd y nod  
**Cynnwys:** Cynnwys y rhai hynny sydd â diddordeb a cheisio eu safbwyntiau; ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid

**Atal:** Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu

#### **Argymhelliad:**

**Yr Aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad.**

#### **Rhesymau dros y penderfyniad:**

Er mwyn sicrhau bod Awdurdod Lleol Ceredigion, ei swyddogion a'i bartneriaid diogelu yn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn effeithiol.

#### **Trosolwg a Chraffu:**

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach

#### **Fframwaith Polisi:**

Strategaeth Gorfforaethol

#### **Blaenoriaethau Corfforaethol:**

Galluogi cydnerthedd unigolion a theuluoedd

#### **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**

O fewn y gyllideb graidd

#### **Goblygiadau Cyfreithiol:**

Dim

#### **Goblygiadau o ran Staff:**

Dim

#### **Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau:**

Dim

#### **Risg(iau):**

Mae'r adroddiad yn nodi'r risgiau o ran niwed i blant a sut y cânt eu diogelu.

#### **Pwerau Statudol:**

Deddf Plant 1989, Deddf Plant 2004 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

#### **Papurau Cefndir:**

Dim ond dogfennau mewnol y Gwasanaethau Arbenigol

**Atodiadau:** Atodiad A- Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ar gyfer Chwarter 2 2022/23

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal

**Swyddog Adrodd:** Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol: Diogelu

**Dyddiad:** 8 Rhagfyr 2022

# Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## Gwasanaeth Diogelu

### Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol

Chwarter 2: 1 Gorffennaf 2022 – 30 Medi 2022



...yn gofalu i wneud gwahaniaeth  
...taking care to make a difference

| <b>CYNNWYS</b>       |                                  |           |
|----------------------|----------------------------------|-----------|
| <b>TUDALEN:</b>      |                                  |           |
| <b>ADRAN UN:</b>     | <b>CYFLWYNIAD</b>                | <b>3</b>  |
| <b>ADRAN DAU:</b>    | <b>CYNLLUNIO GOFAL</b>           | <b>4</b>  |
| <b>ADRAN TRI:</b>    | <b>YMGYNGHORI A CHYFRANOGI</b>   | <b>21</b> |
| <b>ADRAN PEDWAR:</b> | <b>PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU</b> | <b>24</b> |
| <b>ADRAN PUMP:</b>   | <b>GWERTHUSO</b>                 | <b>24</b> |
| <b>ADRAN CHWECH:</b> | <b>CYNLLUNIAU LLWYBR</b>         | <b>25</b> |
| <b>ADRAN SAITH:</b>  | <b>GOFAL SEIBIANT BYR</b>        | <b>27</b> |
| <b>ADRAN WYTH:</b>   | <b>SEIBIANNAU BYR</b>            | <b>28</b> |
| <b>ADRAN NAW:</b>    | <b>GOFALWYR MAETH</b>            | <b>28</b> |

## **ADRAN UN: CYFLWYNIAD**

Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r wybodaeth a gasglwyd gan y Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd ac Adolygu Annibynnol er mwyn monitro perfformiad a sicrhau ansawdd y gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, plant sy'n gadael gofal, plant sydd mewn lleoliadau preswyl, a phlant sy'n derbyn gofal seibiant a seibiannau byr. Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar y ffurflenni monitro sy'n cael eu cwblhau gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn dilyn pob cyfarfod adolygu yn ystod y chwarter hwn, ynghyd â gwybodaeth arall am berfformiad a gedwir gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd.

## **MEINCNODI**

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y mesurau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu.

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegir yn ystod y cyfarfod adolygu, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn llunio barn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd cynllun gofal y plentyn/person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a bydd yn tynnu sylw rheolwyr at unrhyw ymarferion gwael.

Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn/person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol i gael cyngor cyfreithiol/cymryd camau ar ei ran. Barnwyd bod angen gweithredu ar gyfer 2 blentyn/person ifanc yn ystod y cyfnod dan sylw.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/person ifanc ac, os oes, gallai gyfeirio'r achos i CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw gyfarfod adolygu yn ystod y cyfnod hwn.


*Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau, cysylltwch ag:*

Elizabeth Upcott  
Gwasanaeth Diogelu  
Penmorfa  
Aberaeron  
SA46 0PA

**ADRAN DAU  
CYNLLUNIO GOFAL**

**1. Y Prif Ffigyrau ar gyfer Chwarter 2:**

| <b>Mae'r tabl a'r siart isod yn rhoi cyfanswm y data plant sy'n derbyn gofal ar ddiwedd pob chwarter gan ddechrau gyda'r chwarter diweddaraf.</b> |     |
|---|-----|
| 30 Medi 2022  | 112 |
| 30 Mehefin 2022   | 105 |
| 31 Mawrth 2022  | 100 |
| 31 Rhagfyr 2021   | 97  |
| 30 Medi 2021  | 91  |
| 30 Mehefin 2021   | 89  |
| 31 Mawrth 2021  | 85  |
| 31 Rhagfyr 2020   | 79  |
| 30 Medi 2020  | 75  |
| 30 Mehefin 2020   | 78  |



**2. Nifer a chanran yr adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser statudol.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 88.9%

Adolygwyd 63 o blant yn ystod y chwarter hwn.


- Cynhaliwyd 56 (88.9%) o gyfarfodydd adolygu plant sy'n derbyn gofal o fewn y terfynau amser statudol.
- Cynhaliwyd 7 (11.1%) cyfarfod adolygu plant sy'n derbyn gofal y tu allan i'r gofynion statudol; cofnodwyd y rhesymau fel a ganlyn:-
  - Gohiriwyd yr adolygiad ar gyfer 1 teulu gyda 4 o blant oherwydd newid lleoliad ar ddyddiad yr adolygiad.
  - Ar gyfer 1 plentyn bu oedi gyda'r adolygiad oherwydd cysylltiad rhyngurwyd gwael a dim cyfieithydd ar y pryd yn bresennol; bu oedi gydag




adolygiad pellach ar gyfer 1 plentyn hefyd oherwydd nad oedd cyfieithydd ar y pryd yn bresennol.

- Roedd Gweithiwr Cymdeithasol 1 plentyn arall ar wyliau ar y dyddiad hwnnw.

|   | <b>Gorff-Medi 2022</b> | <b>Ebr-Meh 2022</b> | <b>Ion-Maw 2022</b> | <b>Hyd-Rhag 2021</b> | <b>Gorff-Medi 2021</b> |
|---|------------------------|---------------------|---------------------|----------------------|------------------------|
| Nifer y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter                   | 63                     | 83                  | 61                  | 72                   | 48                     |
| Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser       | 56                     | 75                  | 55                  | 69                   | 47                     |
| Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd y tu allan i'r terfynau amser | 7                      | 8                   | 6                   | 3                    | 1                      |




### 3. Oed a rhyw plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:



#### 4. Natur lleoliadau'r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:

| Math o Leoliad  | Yn y Sir  | Tu allan i'r Sir | Cyfanswm  |
|---|-----------|------------------|-----------|
| Gofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol                                      | 12        | 1                | 13        |
| Gofalwyr sy'n Berthnasau  | 10        | 5                | 15        |
| Gofalwyr Asiantaeth Faethu Annibynnol                                 | 8         | 7                | 15        |
| Lleoli â Rhieni   | 5         | 3                | 8         |
| Arall   | 2         | 1                | 3         |
| Lleoli â Theulu   | -         | -                | -         |
| Preswyl   | -         | 4                | 4         |
| Mabwysiadu  | -         | 1                | 1         |
| Preswyl Mamau a Babanod   | -         | -                | -         |
| Gofalwyr Maeth Asiantaeth Faethu Annibynnol ar gyfer Rhieni a Babanod | -         | -                | -         |
| Ysbyty  | -         | -                | -         |
| Llety â Chymorth  | -         | 4                | 4         |
| Byw'n Annibynnol  | -         | -                | -         |
|   | <b>37</b> | <b>26</b>        | <b>63</b> |




Roedd 60 o bobl ifanc a adolygwyd wedi cael eu lleoli gyda gofalwyr oedd yn siarad eu hiaith eu hunain

Nododd 3 adolygiad fod y person ifanc yn plentyn heb fod yng nghwmni oedolyn a chafodd ei roi mewn lleoliad gofal oedd heb fodloni ei anghenion iaith gyntaf. Roedd cyfieithydd yn yr adolygiad er mwyn i'r person ifanc allu cyfrannu'n briodol.


## 5. Statws cyfreithiol y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:

| Statws cyfreithiol y plant a adolygwyd |           |
|--|-----------|
| Gorchymyn Gofal Llawn                  | 27        |
| Gorchymyn Gofal Dros Dro               | 20        |
| Gorchymyn Lleoli                       | 1         |
| Adran 76                               | 15        |
| <b>Cyfanswm</b>                        | <b>63</b> |



## 6. Y rhesymau pam bod y plant a adolygwyd wedi gadael gofal

| Cyfnod          | Y nifer sydd wedi gadael gofal | Y rheswm dros adael gofal |                            |                 |                           |                                    |
|-----------------|--------------------------------|---------------------------|----------------------------|-----------------|---------------------------|------------------------------------|
|                 |                                | Mabwysiadu                | Dychwelyd adref at y teulu | Pan dwi'n barod | Diddymu'r Gorchymyn Gofal | Llety â Chymorth/ Byw'n Annibynnol |
| Gorff-Medi 2022 | 6                              | 1                         | 1                          | 1               | 3                         | 0                                  |
| Ebr-Meh 2022    | 2                              | 0                         | 0                          | 0               | 1                         | 1                                  |
| Ion-Maw 2022    | 3                              | 0                         | 0                          | 1               | 2                         | 0                                  |
| Hyd-Rhag 2021   | 7                              | 0                         | 3                          | 0               | 4                         | 0                                  |
| <b>Cyfanswm</b> | <b>18</b>                      | <b>1</b>                  | <b>4</b>                   | <b>2</b>        | <b>10</b>                 | <b>1</b>                           |



**7. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal sydd â Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig.**


Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 95.2%

- Cofnododd 60 (95.2%) o adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal fod Gweithiwr Cymdeithasol cymwysedig yn gweithio gyda'r plentyn dan sylw.
- Cofnododd 3 (4.8%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal na chafodd Gweithiwr Cymdeithasol cymwysedig ei benodi. Mae hyn oherwydd problemau staffio yn y Tîm Gofal Wedi'i Gynllunio sydd wedi cael eu datrys erbyn hyn.

**8. Nifer a chanran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal a adolygwyd o fewn y terfynau amser gofynnol.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 93.7%

- Derbyniodd 59 (93.7%) o blant sy'n derbyn gofal ymweliadau gan Weithiwr Cymdeithasol yn unol â'r gofynion statudol.
- Ni dderbyniodd 4 (6.3%) o blant sy'n derbyn gofal ymweliadau gan Weithiwr Cymdeithasol yn unol â'r gofynion statudol.




**Sylwadau:** Mae'r capasiti staffio o fewn y timau yn cael effaith ar ymweliadau statudol yn cael eu cynnal a/neu eu diweddarau ar y gronfa ddata.

**9. Nifer a chanran y Cynlluniau Gofal a Chymorth (Rhan 6) a oedd wedi'u sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad cyntaf a'r cynlluniau cyfredol a oedd ar gael ar gyfer yr adolygiad.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 46.0%

- Dechreuodd 13 o blant dderbyn gofal yn ystod y chwarter hwn; cofnodwyd mewn 6 (46.0%) cyfarfod adolygu fod gan y plentyn/person ifanc Gynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) wedi'i sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad. Nid oedd y Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) wedi'i sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad ar gyfer y 7 plentyn/person ifanc arall.



- Nododd y Swyddog Adolygu Annibynnol fod angen diweddarau cofnodion y Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) ar gyfer 13 o blant. Nodwyd bod angen diweddarau'r Cynllun Gofal a Chymorth o hyd ar gyfer 7 plentyn/person ifanc. Roedd hyn oherwydd problemau staffio yn y Tîm Gofal Wedi'i Gynllunio sydd wedi cael eu datrys erbyn hyn.

#### 10. **Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal sydd â Chynllun Parhad wedi'i sefydlu erbyn yr ail adolygiad os na chynlluniwyd ar gyfer dychwelyd adref.**


Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 57.2%

- Cynhaliwyd 7 ail adolygiad yn ystod y chwarter hwn, a chofnododd 4 (57.2%) adolygiad fod Cynllun Parhad wedi'i gytuno. Mae hyn yn cymharu â 77.8% yn y chwarter blaenorol. Roedd hyn oherwydd problemau staffio ar y pryd yn y Tîm Gofal Wedi'i Gynllunio.
- Mewn 11 (17.5%) adolygiad yn ystod y cyfnod hwn cofnododd y Swyddog Adolygu Annibynnol bryderon ynghylch cynnydd y Lleoliad/Cynllun Gofal a Chymorth/Cynllun Parhad.


Roedd natur y pryderon fel a ganlyn:

- Nodwyd ar gyfer teulu gyda 2 o blant fod llusgo gan nad oedd pryderon yn cael sylw effeithiol.
- Yn achos 1 person ifanc, roedd pryder ai'r lleoliad oedd y lle gorau i'r person ifanc ac a oedd yn bodloni anghenion emosiynol y person ifanc.
- Nodwyd oedi gyda Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer 1 person ifanc.


- Mynegodd un teulu gyda 2 o blant bryder am y sefyllfa bresennol yn dilyn torperthynas y rhieni a phartneriaid newydd y rhieni.
- Codwyd pryderon ar gyfer 1 person ifanc ynghylch bregusrwydd a chymorth perthnasau.
- Canfu 1 adolygiad nad oedd y plentyn yn ymwybodol bod ei ofalwyr maeth hirdymor wedi rhoi rhybudd ar y lleoliad a allai effeithio ar y person ifanc yn emosiynol ac yn addysgol / ysgol.
- Nodwyd bod 1 person ifanc mewn lleoliad heb ei reoleiddio.
- Ar gyfer teulu arall gyda 2 o blant, roedd pryderon ynghylch diogelwch y lleoliad presennol a manylion cymeradwyo'r Asiantaeth Faethu Annibynnol sy'n gweithredu fel gofalwr.



## 11. Faint o Amser Mewn Gofal:



## 12. Natur y Cynlluniau Parhad:




## 13. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd ofal seibiant gan rywun heblaw eu prif ofalwyr.

- Nododd 4 (6.3%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal fod y plentyn/person ifanc yn cael gofal seibiant byr gan rywun heblaw eu prif ofalwyr.

## 14. Nifer a chanran y bobl ifanc gymwys oedd â Chynllun Llwybr yn unol â'r gofynion.

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 33.3%

- Mewn 2 (33.3%) adolygiad cofnodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Llwybr wedi'i sefydlu a bod Ymgynghorydd Personol wedi'i benodi ar ei gyfer.
- Mewn 4 (66.7%) adolygiad cofnodwyd nad oedd Cynllun Llwybr gan y person ifanc, fodd bynnag cafodd Ymgynghorydd Personol ei benodi ar gyfer pob un o'r 4 person ifanc hyn.
- Mewn 1 adolygiad pellach nodwyd bod Ymgynghorydd Personol eisoes wedi'i benodi ar gyfer y person ifanc.



**15. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal (fel y bo'n briodol o ran eu hoedran a'u crebwyll) sy'n deall y rhesymau pam eu bod yn cael eu gofalu amdanynt.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 95.6%

- Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn gysylltiedig â 45 o blant/pobl ifanc oherwydd barnwyd nad oedd 18 o'r plant/pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i ddeall pam eu bod yn derbyn gofal.
- Roedd 43 (95.6%) yn y grŵp hwn yn dangos rhyw fath o ddealltwriaeth ynghylch pam eu bod yn derbyn gofal gan rywun heblaw am eu teuluoedd o'i gymharu â 93.4% yn y chwarter blaenorol.
- Nododd 2 (4.4%) adolygiad ar gyfer un teulu o blant fod angen gwneud mwy o waith gyda'r plentyn/person ifanc.

**16. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal (fel y bo'n briodol o ran eu hoedran a'u crebwyll) a oedd yn deall eu Cynlluniau Gofal a Chymorth.**

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 39 o blant/pobl ifanc oherwydd barnwyd nad oedd 24 o'r plant/pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Roedd 36 (92.3%) yn y grŵp hwn yn dangos dealltwriaeth o'r hyn a oedd yn eu Cynlluniau Gofal a Chymorth (Rhan 6).
- Nododd 3 (7.7%) adolygiad fod angen rhannu hwn gyda'r plant/pobl ifanc.

**17. Mesur Cenedlaethol 33: Nifer a chanran yr achosion o symud plant sy'n derbyn gofal.**

- Mewn 12 (19.0%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi symud lleoliad yn ystod y chwarter hwn o'i gymharu â (25.4%) yn y chwarter blaenorol.

Dyma oedd y rhesymau dros newid y lleoliadau:

- Cafodd 1 person ifanc ei ryddhau o'r ysbyty i leoliad gofal maeth.
- Roedd 1 person ifanc wedi symud tair gwaith oherwydd tor-berthynas.
- Ar gyfer person ifanc arall roedd anawsterau yn y lleoliad a cheisiwyd lleoliad arall.
- Nid oedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn yn diwallu anghenion 1 plentyn; felly nodwyd Lleoliad Rhiant a Phlant arall er mwyn i'r asesiad allu parhau.
- Symudodd 1 person ifanc er mwyn bod yn agosach at ei deulu estynedig.
- Yn achos person ifanc arall symudodd er mwyn bod yn agosach at gyfleusterau a allai ddiwallu ei anghenion diwylliannol a chrefyddol yn well.



- Symudodd 1 person ifanc arall i lety cymeradwy o leoliad heb ei reoleiddio.
- Yn achos 1 person ifanc nodwyd bod rhybudd wedi ei roi gan ei leoliad ac wedi hynny symudodd y person ifanc i leoliad mwy priodol a allai ddiwallu ei anghenion yn well.
- Roedd cynlluniau i 1 person ifanc symud o ofal maeth i leoliad preswyl.
- Nododd adolygiad ar gyfer teulu o blant fod 2 o'r bobl ifanc wedi symud lleoliad oherwydd addasrwydd ac argaeledd, a bod plentyn arall wedi symud lleoliad oherwydd addasrwydd, argaeledd a pharu lleoliad.

**18. Nifer a chanran y cynlluniau lleoli (gan gynnwys darpariaeth addysg ac iechyd) yr aseswyd eu bod yn bodloni anghenion plant sy'n derbyn gofal.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 92.1%

- Cofnodwyd bod 58 (92.1%) o gynlluniau lleoli/gofal a chymorth yn bodloni anghenion y plant/pobl ifanc o'i gymharu â 95.2% yn y chwarter blaenorol.
- Cofnododd 5 (7.9%) adolygiad nad oedd y lleoliad/gofal a chymorth yn bodloni anghenion y plentyn/person ifanc. Y rhesymau a gofnodwyd oedd: -
  - Cofnododd 4 adolygiad mai'r rheswm am hyn oedd oherwydd bod y person ifanc mewn lleoliad heb ei reoleiddio.
  - Nododd 1 adolygiad pellach fod y lleoliad yn un byrdymor dim ond nes y deuir o hyd i leoliad parhaol.

**19. Nifer a chanran y pryderon diogelu a nodwyd mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal yn ystod y chwarter hwn.**

- Mewn 5 (7.9%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal nodwyd pryderon diogelu ar gyfer y person ifanc; cadarnhawyd bod y pryderon yn cael sylw.


**20. Nifer y plant sy'n derbyn gofal a enwir ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.**

- Nodwyd mewn 9 (14.3%) adolygiad bod y person ifanc wedi'i enwi ar y Gofrestr Amddiffyn plant.

**21. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd Asesiadau Iechyd yn unol â'r gofynion statudol.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 88.9%

- Roedd gan 56 (88.9%) o'r plant/pobl Ifanc sy'n derbyn gofal asesiad iechyd cyfredol adeg eu hadolygiad o'i gymharu â 97.6% yn y chwarter blaenorol.
- Nid oedd gan 7 (11.1%) o'r plant/pobl ifanc sy'n derbyn gofal asesiad iechyd cyfredol adeg eu hadolygiad, fodd bynnag cadarnhawyd bod y rhain wedi'u sefydlu bellach.



## 22. Canran y plant a oedd wedi cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau derbyn gofal

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 42.9%

### Wedi cofrestru gyda deintydd

Mae'r data ar gyfer cofrestru plant/pobl ifanc gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl iddynt ddechrau derbyn gofal yn ymwneud â 7 plentyn/person ifanc.

- Mewn 3 (42.9%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau derbyn gofal.
- Mewn 4 (57.1%) adolygiad nodwyd bod y plentyn/person ifanc heb gofrestru eto gyda deintydd.

\*\*\*\*\*

### Wedi cofrestru gyda deintydd

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 50 o blant/pobl ifanc oherwydd diystyriwyd 13 plentyn/person ifanc a oedd yn cael eu hadolygiad plant sy'n derbyn gofal cyntaf o'r ffigurau uchod er mwyn bodloni gofynion y Mesur Cenedlaethol.

- Roedd 43 (86.0%) o blant a phobl ifanc wedi cofrestru gyda deintydd. Mae hyn yn cymharu â 97.4% yn y chwarter blaenorol.
- Roedd angen i 7 (14.0%) plentyn/person ifanc gofrestru gyda deintydd.

**Sylwadau:** Mae rhai o'r plant hyn y tu allan i'r Sir ac mae rhai o dan 1 oed.

**23. Mesur Cenedlaethol 30: Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal oedd wedi cael eu gweld gan ddeintydd o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal.**

**Wedi cael ei weld gan ddeintydd**

Mae'r data ar gyfer cael ei weld gan ddeintydd o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal yn ymwneud â 5 plentyn.

- Cofnodwyd mewn 2 adolygiad (40.0%) bod y plentyn/person ifanc wedi cael ei weld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal.
- Cofnodwyd mewn 3 adolygiad (60.0%) nad oedd y plentyn/person ifanc wedi cael ei weld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal.


\*\*\*\*\*

**Wedi cael ei weld gan ddeintydd**

Targed a bennwyd 90% – Yr hyn a gyflawnwyd 71.4%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 42 o blant/pobl ifanc gan fod 21 o blant/pobl ifanc yn iau na 2 oed a/neu'n cael eu hadolygiad o blant sy'n derbyn gofal cyntaf, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau uchod er mwyn bodloni gofynion y Mesur Cenedlaethol.

- Cofnodwyd bod 30 (71.4%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd yn y 12 mis blaenorol o'i gymharu â 69.9% yn y chwarter blaenorol.
- Cofnodwyd nad oedd 12 (28.6%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd.



**24. Mesur Cenedlaethol 31: Canran y plant sy'n derbyn gofal a oedd wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl dechrau yn y lleoliad.**

- Mewn 23 (92.0%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn wedi cofrestru gyda darparwr gwasanaethau meddygol cyffredinol o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl dechrau derbyn gofal.
- Mewn 2 (8.0%) adolygiad cofnodwyd bod y cam gweithredu hwn yn parhau heb ei gwblhau; roedd yr adolygiadau hyn ar gyfer yr un plentyn a gafodd ei adolygu dwywaith yn ystod y chwarter.

**25. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a oedd wedi cofrestru gyda meddyg teulu.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

- Roedd 63 (100.0%) o blant a phobl ifanc wedi cofrestru gyda meddyg teulu o'i gymharu â 98.8% yn y chwarter blaenorol.
- Roedd 52 (83.9%) o blant wedi cael eu holl frechiadau angenrheidiol.
- Roedd 10 (16.1%) o blant yn hwyr yn cael eu brechiadau. Mae 3 o'r bobl ifanc hyn yn Blant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches a chynigir rhaglen garlam iddynt gan fod ganddynt hanes blaenorol anghyflawn o frechu.

Cafodd 1 adolygiad ei ddiystyru o'r ffigurau oherwydd roedd y rhiant yn gwrthod caniatáu i'r plentyn gael ei frechu.

**26. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal yr aseswyd eu bod angen cymorth gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gafodd eu hatgyfeirio ac a dderbyniodd asesiad/gwasanaeth.**

Targed: 50%


Perfformiad Gwirioneddol

- Mewn 5 (7.9%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi'i atgyfeirio i CAMHS, a chadarnhawyd mewn 3 adolygiad fod yr atgyfeiriad wedi cael ei dderbyn ar gyfer y plentyn/person ifanc.
- Mewn 55 (87.3%) o adolygiadau cofnodwyd bod iechyd meddwl/emosiynol y plant/pobl ifanc wedi'i ystyried yn yr Asesiad Iechyd a/neu wrth drafod yn y cyfarfod.
- Mewn 8 (12.7%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y problemau iechyd meddwl wedi cael eu hystyried. Roedd 6 o'r adolygiadau hyn ar gyfer babanod.

## 27. Natur y ddarpariaeth addysg:

Yn ystod y chwarter hwn roedd y plant a'r bobl ifanc a adolygwyd yn y ddarpariaeth addysg ganlynol:

| Darpariaeth Addysg                                 |           |
|--|-----------|
| Plant cyn-ysgol                                    | 12        |
| Disgyblion ysgol gynradd                           | 29        |
| Disgyblion ysgol uwchradd                          | 10        |
| Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU)                     | 1         |
| Prosiectau eraill – Lleoliad Gwaith Arbenigol      | 2         |
| Coleg  | 3         |
| Heb fod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET) | 4         |
| Addysg heblaw yn yr ysgol                          | 2         |
| Colli addysg                                       |           |
| Preswyl  |           |
| Wedi gadael yr ysgol                               |           |
| Tiwtora  |           |
| Addysg Ddewisol yn y Cartref                       |           |
| Cyflogedig   |           |
| <b>Cyfanswm</b>                                    | <b>63</b> |



**28. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal oedran ysgol oedd â Chynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl dechrau derbyn gofal neu ar ôl dechrau mewn ysgol newydd.**

Targed a bennwyd 70% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 38 o blant/pobl ifanc oedran statudol i ddechrau'r ysgol ac felly'n gymwys i gael Cynllun Addysg Personol.

- Roedd gan 37 (97.4%) o blant a phobl ifanc oedran statudol i ddechrau ysgol Gynllun Addysg Personol cyfredol.
  - Mewn 12 (92.3%) adolygiad cofnodwyd bod y Cynllun Addysg Personol wedi'i gwblhau o fewn 20 diwrnod ysgol o fod yn blentyn sy'n derbyn gofal neu 20 diwrnod gwaith ar ôl newid ysgol yn unol â'r gofynion. Mewn 1 (7.7%) adolygiad cofnodwyd bod oedi gyda'r Cynllun Addysg Personol ond cafodd ei gwblhau wedi hynny.
  - Mewn 25 (100.0%) adolygiad cofnodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Addysg Personol cyfredol.

\*\*\*

- Roedd gan 11 (27.5%) o blant a phobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol/coleg anghenion dysgu ychwanegol cydnabyddedig.

\*\*\*

- Mewn 20 (47.6%) adolygiad daethpwyd i'r casgliad bod y plant/pobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol/coleg yn tangyflawni o ran eu haddysg. Ym mhob un o'r 20 (100.0%) adolygiad cofnodwyd bod y bobl ifanc yn cael cymorth.

\*\*\*

- Mewn 8 (80.0%) adolygiad nodwyd bod y ddarpariaeth addysg wedi'i sefydlu ar ddechrau'r lleoliad.
- Mewn 2 (20.0%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y ddarpariaeth addysg wedi'i sefydlu ar ddechrau'r lleoliad.

\*\*\*

- Mewn 2 (5.3%) adolygiad cofnodwyd y bu cyfnod pan oedd y plentyn/person ifanc heb fod mewn addysg am gyfnod tra ei fod aros am le mewn ysgol

**29. Mesur Cenedlaethol 32: Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi symud i ysgol arall, ac eithrio trefniadau pontio**

Targed a bennwyd 0% – Yr hyn a gyflawnwyd 5.3%

- Mewn 2 (5.3%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi symud i ysgol arall ac nad oedd yn symud yn dilyn pontio, o'i gymharu ag 1.7% yn y chwarter blaenorol.

**30. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd eu gwahardd o'r ysgol**

Targed a bennwyd 12% gwaharddiad dros dro – Yr hyn a gyflawnwyd 0.0%

Targed a bennwyd 1% gwaharddiad parhaol – Yr hyn a gyflawnwyd 0.0%

- Mewn 0 adolygiad (0.0%) adroddwyd bod y person ifanc wedi'i wahardd o'r ysgol dros dro yn ystod y cyfnod adolygu. Mae hyn yn cymharu ag 1.7% yn y chwarter blaenorol.
- Ni adroddwyd mewn unrhyw adolygiad (0.0%) bod y person ifanc wedi'i wahardd yn barhaol o'r ysgol, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

Dyma'r gwaharddiadau yn ystod y chwarter hwn:-

2 sesiwn – 1 diwrnod



## ADRAN TRI

### YMGYNGHORI A CHYFRANOGI

- Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a oedd yn ddigon hen ac yn meddu ar ddigon o grebwyll fel bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gallu ymgynghori â hwy neu roeddent yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 45 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 18 adolygiad nad oedd y plant/pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i fod yn rhan o'r broses ymgynghori, er bod 2 o'r rhain wedi bod yn bresennol yn eu hadolygiad.

- Cofnodwyd mewn 45 (100.0%) adolygiad fod ymgynghori wedi digwydd.

#### Dadansoddiad o'r ymgynghori

Roedd 18 plentyn/person ifanc yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu ar Teams.

Roedd 27 plentyn/person ifanc wedi cwblhau papurau ymgynghori a/neu roedd gweithwyr proffesiynol, rhieni, gofalwyr neu eiriolwyr wedi'u cynrychioli yno.

- Roedd gan y Swyddog Adolygu Annibynnol gysylltiad uniongyrchol â 2 blentyn/person ifanc yn ystod y cyfnod adolygu y tu allan i'r cyfarfod adolygu.

- Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a oedd yn gwybod am eu hawl i gael Gwasanaeth Eirioli/Cynllun Ymwelydd Annibynnol**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 89.6%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 48 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 15 adolygiad nad oedd y plant/pobl ifanc a adolygwyd yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i gael gwybod am eu hawl i gael Eiriolwr/Cynllun Ymwelydd Annibynnol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Hysbyswyd 43 (89.6%) o blant/pobl ifanc am eu hawl i gael Eiriolwr/Cynllun Ymwelydd Annibynnol.

Yn ystod y cyfnod clo COVID 19, byddai'r gwasanaeth eiriolaeth yn cael ei wahodd i'r holl adolygiadau plant sy'n derbyn gofal a oedd yn cael eu cynnal yn rhithiol a byddai'r eiriolwyr yn mynychu'r cyfarfodydd. Fodd bynnag, yn ystod y chwarter hwn, oherwydd bod cyfyngiadau'n cael eu codi, mae'r gwasanaeth eiriolaeth bellach yn gallu cynnal mwy o ymweliadau wyneb yn wyneb â phlant/pobl ifanc, ac felly nid ydynt bob amser yn gallu mynychu pob adolygiad o blant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, lle bernir ei bod yn briodol iddynt wneud hynny, byddant yn mynychu.

### 3. **Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a gafodd wybod am y drefn gwyno**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 37 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 26 adolygiad nad oedd y plentyn/person ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll, felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Roedd 37 (100.0%) o blant/pobl ifanc yn gwybod am y drefn gwyno sy'n debyg i'r chwarter blaenorol.

### 4. **Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y rhieni y bu i'r Gweithiwr Cymdeithasol ymgynghori â hwy cyn yr adolygiad neu a fu'n bresennol yn y cyfarfod adolygu**

Targed a bennwyd 80% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 57 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 6 adolygiad nad oedd y rhieni yn rhan o'r broses adolygu statudol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Cwblhaodd 57 (100.0%) o rieni bapurau ymgynghori neu roeddent wedi cwrdd neu siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol cyn a/neu ar ôl y cyfarfod adolygu, a/neu roeddent wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod adolygu eu hunain, a/neu roedd gweithwyr proffesiynol wedi'u cynrychioli yno.

#### Dadansoddiad o'r ymgynghori

Cafodd papurau ymgynghori eu hanfon ar gyfer pob un o'r 57 adolygiad.

Mewn 35 adolygiad cadarnhawyd bod y rhieni'n bresennol neu eu bod wedi siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol dros y ffôn cyn a/neu ar ôl yr adolygiad.

### 5. **Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y gofalwyr maeth y bu i'r Gweithiwr Cymdeithasol ymgynghori â hwy neu a fu'n bresennol yng nghyfarfod adolygu'r plentyn**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 55 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 8 adolygiad bod y plentyn wedi'i leoli â rhiant neu roedd yn byw'n annibynnol, felly diystyriwyd yr adolygiadau hyn yn y ffigurau.

- Cwblhaodd 56 (100.0%) o ofalwyr maeth bapurau ymgynghori a/neu buont yn bresennol yn yr adolygiadau yn ystod y cyfnod hwn.

**6. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y Cynrychiolwyr Iechyd a fu'n bresennol mewn adolygiad neu a anfonodd adroddiad.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 87.3%

- Mewn 55 (87.3%) adolygiad cadarnhawyd bod gwybodaeth am iechyd ar gael ar gyfer y cyfarfod.
- Mewn 8 (12.7%) adolygiad adroddwyd nad oedd gwybodaeth am iechyd ar gael ar gyfer y cyfarfod.

**Sylwadau:** Pan fydd y person ifanc yn cael ei leoli y tu allan i'r ardal mae angen anfon y gwahoddiad iechyd at y tîm iechyd lletyol, ac rydym yn parhau i geisio gwella'r wybodaeth a dderbynnir.

**7. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y cynrychiolwyr ysgol a fu'n bresennol mewn adolygiad neu a anfonodd adroddiad.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 90.5%

- Mewn 38 (90.5%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal roedd rhywun o'r ysgol yn bresennol neu wedi darparu adroddiad ysgrifenedig o'i gymharu â 98.4% yn y chwarter blaenorol.

**8. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y dogfennau adolygiad o blant sy'n derbyn gofal a gwblhaodd y Gweithiwr Cymdeithasol cyn yr adolygiad.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 68.3%

- Mewn 43 (68.3%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal cadarnhawyd bod y gweithiwr cymdeithasol wedi cwblhau'r ddogfen adolygu cyn y cyfarfod adolygu, o'i gymharu â 77.1% yn y chwarter blaenorol.
- Mewn 20 (31.7%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal cadarnhawyd nad oedd y ddogfen adolygu wedi'i chwblhau gan y gweithiwr cymdeithasol cyn yr adolygiad.

**Sylwadau:** Mae'r capasiti staffio wedi cael effaith ar ddogfennau'n cael eu cwblhau gan weithwyr cymdeithasol cyn adolygiadau yn y chwarter hwn.

**ADRAN PEDWAR:  
PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU**

Ni weithredodd y Swyddog Adolygu Annibynnol y Protocol Datrys Problemau ar gyfer unrhyw blentyn yn ystod y cyfnod hwn.

Er y nodwyd nad oedd adolygiadau canol cyfnod yn cael eu cynnal, lle bo angen, roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn dwyn adolygiadau ymlaen pan oedd pryderon.

**ADRAN PUMP**

**GWERTHUSO**

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.

## ADRAN CHWECH

### CYNLLUNIAU LLWYBR

#### Ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed nad ydynt yn blant sy'n derbyn gofal/pobl ifanc dros 18 oed sydd wedi gadael gofal

Cynhaliwyd 33 Adolygiad o Gynlluniau Llwybr yn ystod y chwarter hwn.

- 1 **Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adolygiadau o Gynlluniau Llwybr a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser**
  - Cynhaliwyd 24 (72.7%) o Adolygiadau o Gynlluniau Llwybr o fewn y terfynau amser o'i gymharu â 76.9% yn y chwarter blaenorol.
  - Cynhaliwyd 9 (27.3%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr y tu allan i'r terfynau amser. Roedd y rhesymau a gofnodwyd fel a ganlyn:
    - Aildrefnwyd 4 adolygiad oherwydd argaeledd y person ifanc.
    - Cafodd 5 adolygiad pellach eu hoedi er mwyn i weithwyr proffesiynol fod yn bresennol.
  
- 2 **Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc ag Ymgynghorydd Personol/Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig.**
  - Ym mhob un o'r 33 (100%) adolygiad nodwyd bod gan yr holl bobl ifanc Ymgynghorydd Personol a/neu Weithiwr Cymdeithasol dynodedig.
  
- 3 **Dangosydd Perfformiad: Canran y Cofnodion o'r Adolygiad o Gynlluniau Llwybr a oedd wedi'u cwblhau erbyn y cyfarfod**
  - Roedd y Cofnod Adolygu wedi'i gwblhau ar gyfer 23 (69.7%) o Adolygiadau Cynlluniau Llwybr o'i gymharu ag 84.6% yn y chwarter blaenorol.
  - Mewn 10 (30.3%) adolygiad adroddwyd nad oedd y Cofnod o'r Adolygiad wedi'i gwblhau adeg yr adolygiad.
  
- 4 **Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y cyfarfod adolygu**
  - Cadarnhaodd bob un o'r 33 (100.0%) adolygiad fod barn y plentyn/person ifanc wedi cael ei chynrychioli yn yr adolygiad a/neu ei fod wedi yn bresennol yn yr adolygiad.

**5 Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc a oedd yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu**

- Mewn 15 (45.5%) adolygiad cofnodwyd y bu'r person ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu.
- Mewn 18 (54.5%) adolygiad cofnodwyd na fu'r person ifanc yn bresennol yn yr adolygiad.

**6 Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr oedd yn bodloni anghenion y person ifanc**

- Mewn 27 (81.8%) adolygiad cadarnhawyd bod y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc.
- Mewn 5 (15.2%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc; roedd y rhesymau a gofnodwyd fel a ganlyn:-
  - Ar gyfer 4 person ifanc roedd angen diweddarau'r Cynllun Llwybr er mwyn adlewyrchu sefyllfa bresennol y person ifanc.
  - Ar gyfer person ifanc arall nodwyd bod y sefyllfa llety yn fregus.
- Nodwyd ar gyfer 1 (3.0%) adolygiad pellach nad oedd unrhyw Ddogfen Adolygu Cynllun Llwybr wedi'i chwblhau ac ni chafwyd mewnbwn gan y person ifanc, felly ni wyddys a oedd y Cynllun Llwybr yn diwallu anghenion y person ifanc.

**7 Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr a ddiweddarwyd cyn gadael gofal/troi'n 18 oed**

- Adroddodd 1 (100.0%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr fod y Cynllun Llwybr wedi'i ddiweddarau cyn i'r person ifanc adael gofal/troi'n ddeunaw oed.

**8 Gwerthuso – Nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.**

**ADRAN SAITH****GOFAL SEIBIANT BYR RHEOLAIDD**

Cynhaliwyd 1 Adolygiad o Ofal Seibiant Byr Rheolaidd yn ystod y chwarter hwn.

- 1 Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adolygiadau o Ofal Seibiant Byr Rheolaidd a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser statudol**
  - Cynhaliwyd yr adolygiad hwn o fewn y terfynau amser.
  
- 2 Dangosydd Perfformiad: Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn lleoliadau Gofal Seibiant Byr Rheolaidd a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser gofynnol**
  - Cofnodwyd bod yr ymweliadau statudol wedi'u cynnal.
  
- 3 Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy/a fynychodd y cyfarfod adolygu**
  - Cafodd y person ifanc ei gynrychioli/roedd y person ifanc wedi mynychu'r cyfarfod adolygu.
  
- 4 Dangosydd Perfformiad: Canran y rhieni yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y Cyfarfod Adolygu**
  - Dogfennwyd bod y rhiant wedi mynychu/wedi'i gynrychioli yn y cyfarfod adolygu.
  
- 5 Dangosydd Perfformiad: Canran y gofalwyr maeth yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y cyfarfod adolygu**
  - Cadarnhawyd bod y gofalwyr wedi mynychu/wedi'u cynrychioli yn yr adolygiad.

\*\*\*

**ADRAN WYTH**  
**SEIBIANNAU BYR**

Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiadau o seibiannau byr yn ystod y cyfnod dan sylw.

\*\*\*

**ADRAN NAW**  
**ADOLYGIADAU O OFALWYR MAETH**

Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiadau o ofalwyr maeth gan y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol yn ystod y cyfnod dan sylw. Mae Adolygiadau o Ofalwyr Maeth yn cael eu cynnal ar hyn o bryd trwy broses wahanol, yn annibynnol ar y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol.



## Cyngor Sir Ceredigion

|                       |  |
|-----------------------|--|
| <b>Adroddiad i'r:</b> | Cabinet  |
| <b>Dyddiad:</b>       | 14 Chwefror 2023   |
| <b>Amser:</b>         | 10:00am  |
| <b>Teitl:</b>         | Argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2023 i ystyried Adroddiadau Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ar gyfer Chwarter 1 a 2, 2022-2023 |

### **CEFNDIR:**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2023, ystyriwyd adroddiadau'r Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ar gyfer chwarter 1 a 2 2022-2023 er mwyn monitro cynnydd y Plant sy'n Derbyn Gofal ar sail Gwaith craffu'r Swyddogion Adolygu Annibynnol ar eu cynlluniau a'u lleoliadau yn ystod dau chwarter cyntaf 2022/2023. Mae'r wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau fel Rhieni Corfforaethol.

Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor eu gwerthfawrogiad i'r Swyddogion am eu gwaith caled parhaus a gofynnwyd i'r neges gael ei throsglwyddo i holl staff y gwasanaeth.

### **ARGYMHELLIAD:**

Yn dilyn trafodaeth, argymhellodd Aelodau'r Pwyllgor y dylai'r Cabinet:

- nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefel o weithgarwch o fewn yr Awdurdod Lleol.

**Y Cynghorydd Caryl Roberts**  
***Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach***